
Archwilio Cymru
Audit Wales

# 'Gwella ein Perfformiad'
# Mynd i'r Afael â Thwyll yng Nghymru

Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

Gorffennaf 2020



Paratowyd yr adroddiad hwn i'w gyflwyno i'r Senedd o dan ddeddfau Llywodraeth Cymru 1998 a 2006 a Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Roedd tîm astudio Archwilio Cymru yn cynnwys Rachel Davies, Christine Nash ac Ian Hughes, dan gyfarwyddyd Mike Usher.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Senedd ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2020

Archwilio Cymru yw enw ymbarél Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n ddau endid cyfreithiol ar wahân â'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol swyddogaethau archwilio ac adrodd ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru. Mae gan Swyddfa Archwilio Cymru swyddogaethau darparu adnoddau, megis staff, er mwyn arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, a monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Pan fo hynny'n berthnasol, mae testun y ddogfen hon yn nodi swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol a swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo unrhyw swyddogaethau.

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

# Cynnwys


Rhagair gan yr Archwilydd Cyffredinol 4

## Adroddiad cryno

Crynodeb ac argymhellion 7

Y pandemig COVID-19: astudiaeth achos 10

## Prif adroddiad

1 Diwylliant ac arweinyddiaeth ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru 14

2 Fframweithiau rheoli risg a sicrhau rheolaeth 19

3 Polisïau a hyfforddiant 23

4 Capasiti ac arbenigedd 27

5 Offer a data 32

6 Cydweithio 37

7 Adrodd a chraffu 41

## Atodiadau

1 Dulliau archwilio 46

2 Ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ym mis Gorffennaf 2019 49

# Rhagair gan yr Archwilydd Cyffredinol

1 Ym mis Mehefin 2019, cyhoeddais adroddiad a oedd yn cynnwys trosolwg o hyd a lled twyll yn y sector cyhoeddus yng Nghymru, ynghyd â disgrifiad o drefniadau atal twyll ar draws Llywodraeth Cymru, y GIG a llywodraeth leol. Nodais fod y symiau a gollir yn flynyddol yng Nghymru oherwydd twyll a gwallau'n sylweddol – ac y gallent fod rhwng £100 miliwn ac £1 biliwn. Mae Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr yn cydnabod bod twyll yn un o'r troseddau mwyaf cyffredin yng nghymdeithas yr oes sydd ohoni.

2 Fodd bynnag, mae rhai uwch-arweinwyr yn y sector cyhoeddus yn amheus ynghylch y lefelau o dwyll sydd yn eu sefydliadau. O ganlyniad, maent yn gyndyn o fuddsoddi mewn trefniadau atal twyll ac maent yn rhoi blaenoriaeth isel i'r gwaith o ymchwilio i achosion o dwyll posibl y mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn tynnu eu sylw atynt, er bod llawer o enghreifftiau o adenillion da ar fuddsoddiad i'w gweld yn y maes hwn. Mae eu safbwynt yn mynd yn groes i'r holl ymchwil a gyflawnir gan arweinwyr cydnabyddedig yn y maes, megis y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) a Swyddogaeth Atal Twyll Llywodraeth y DU. Mae'r adroddiad diweddaraf hwn sy'n archwilio effeithiolrwydd trefniadau atal twyll mewn dros 40 o gyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru wedi gweld nad yw'r amheuaeth honno, lle mae'n codi, yn seiliedig ar unrhyw waith lleol o bwys i atal twyll nac ar unrhyw asesiadau cadarn o'r risgiau o dwyll.

3 Ond rydym hefyd yn gwybod bod twyllwyr yn ymddangos cyn gynted ag y bydd cyfle'n codi. Hyd yma mae 15 o unigolion wedi cael eu carcharu am dwyllo'n dilyn trasiedi'r tân yn Nhŵr Grenfell. Roedd twyllwyr a sgamwyr wrth eu gwaith yn sydyn yn gynharach eleni tra oedd y llifogydd yn ne Cymru yn dinistrio cartrefi a bywydau pobl leol. Gwelwyd cynnydd enfawr mewn gweithgarwch twyllodrus, yn enwedig mewn seiberdroseddu, yn ystod y pandemig COVID-19 presennol. Rwy'n croesawu'r camau rhagweithiol y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i godi ymwybyddiaeth ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru o'r risg hon.

4 Gall cyrff y sector cyhoeddus leihau’r risgiau dan sylw drwy feithrin y diwylliant sefydliadol cywir a ategir gan drefniadau cadarn ar gyfer atal twyll. Gan fod llawer o awdurdodau lleol wedi buddsoddi cyn lleied mewn trefniadau atal twyll, dim ond ychydig o’r elfennau allweddol sydd ganddynt ar waith. Er bod y sefyllfa’n gyffredinol yn fwy cadarn o lawer ar draws y GIG yng Nghymru, ceir agenda heriol o hyd o safbwynt sicrhau bod trefniadau atal twyll yn addas ar gyfer y degawd nesaf oherwydd bod globaleiddio a dyfodiad technoleg ddigidol wedi creu risgiau newydd, a chyfleoedd newydd, i’r twyllwyr.

5 Cefais fy nghalonogi gan ymateb cadarnhaol Llywodraeth Cymru i’m hadroddiad yn 2019 ac, yn dilyn y gynhadledd undydd a drefnwyd gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ym mis Gorffennaf 2019, gan ymrwymiad yr Ysgrifennydd Parhaol (gweler **Atodiad 2**) i ddarparu arweinyddiaeth ar lefel Cymru gyfan er mwyn codi proffil gweithgarwch ym maes atal twyll.

6 Yn yr adroddiad diweddaraf hwn, sy’n seiliedig ar raglen fwy estynedig o waith maes, rydym yn nodi ystod sylweddol o gyfleoedd pellach i wella’r sefyllfa genedlaethol bresennol. Mae’r cyfleoedd hynny’n cynnwys:

a cryfhau arweinyddiaeth strategol, gwaith cydlynu a goruchwyliaeth ym maes atal twyll ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru;

b cynyddu capasiti a gallu ym maes atal twyll, yn enwedig ar draws llywodraeth leol, ac archwilio’r potensial i rannu adnoddau ac arbenigedd ar draws cyrff cyhoeddus;

c sicrhau’r cydbwysedd cywir rhwng gweithgareddau rhagweithiol ac adweithiol ym maes atal twyll;

ch gwella gwaith codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant i staff ynghylch atal twyll; a

d gwerthuso’r risgiau o dwyll yn well a rhannu gwybodaeth am dwyll yn well, o fewn sectorau ac ar eu traws.

7 At hynny, ceir llawer o botensial i Gymru fanteisio lle bo’n briodol ar lawer o’r mentrau atal twyll sydd ar y gweill ar draws sector cyhoeddus ehangach y DU. Yn eu plith y mae Proffesiwn Atal Twyll Llywodraeth y DU, sef proffesiwn cydnabyddedig a sefydlwyd yn ddiweddar sydd â chymwyseddau clir a llwybrau clir o ran gyrfa, a’r ffocws cynyddol ar fynd i’r afael â thwyll drwy wneud defnydd mwy clyfar o wyddor dadansoddi data.

8 Wrth i mi gyhoeddi'r adroddiad hwn, mae Cymru yn dal i ymgodymu ag effeithiau'r pandemig COVID-19. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys darlun amserol o rai o'r ffyrdd y mae twyllwyr wedi gweithredu'n gyflym yn ystod y misoedd diwethaf i ecsbloetio'r pandemig er mwyn gwneud elw troseddol. Rwyf eisoes wedi cymryd camau i ehangu rhychwant ein Menter Twyll Genedlaethol er mwyn galluogi awdurdodau lleol yng Nghymru i gynnal archwiliadau o gymhwysedd unrhyw geisiadau am grantiau cymorth COVID-19. Rwyf hefyd yn bwriadu mynnu y dylai pob awdurdod lleol, ynghyd â Llywodraeth Cymru, anfon data ynghylch grantiau a thaliadau COVID-19 i'r Fenter Twyll Genedlaethol er mwyn helpu i ganfod ceisiadau twyllodrus.



**Adrian Crompton**
Archwilydd Cyffredinol Cymru

# Crynodeb ac argymhellion

## Sicrhau bod y trefniadau ar gyfer atal a chanfod twyll yn y sector cyhoeddus yng Nghymru yn effeithiol

Mae'r adroddiad hwn yn archwilio saith **'thema allweddol'** y mae angen i bob corff cyhoeddus ganolbwyntio arnynt wrth wella eu perfformiad o safbwynt mynd i'r afael â thwyll yn fwy effeithiol:



- arweinyddiaeth a diwylliant;
- fframweithiau rheoli risg a sicrhau rheolaeth;
- polisïau a hyfforddiant;
- capasiti ac arbenigedd;
- offer a data;
- cydweithio; ac
- adrodd a chraffu.

Ar gyfer pob un o'r themâu yn eu tro, mae'r adroddiad yn archwilio:

- pam y mae'r thema yn bwysig;
- beth y gwnaeth ein gwaith maes ar gyfer archwilio ei nodi o safbwynt arferion gweithio presennol a'u heffeithiolrwydd ar draws y 40 o gyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru a archwiliwyd gennym (ac a restrir yn **Atodiad 1**); a
- beth sy'n gorfod digwydd nesaf i sicrhau gwelliant.

Mae ein **hargymhellion ar gyfer gwella**, a gaiff eu cyfeirio at bob corff cyhoeddus yng Nghymru sydd o fewn cylch gwaith yr Archwilydd Cyffredinol, fel a ganlyn:

| Thema | Beth sy’n gorfod digwydd nesaf? |
|---|---|
| **Arweinyddiaeth a diwylliant**  | **A1** Dylai Llywodraeth Cymru wella ei harweinyddiaeth strategol ym maes atal twyll ar draws y gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru, a chyflawni rôl gydlynu os yw hynny’n bosibl iddi, gan gydnabod bod cyrff unigol yn parhau’n gyfrifol am eu gweithgareddau eu hunain ym maes atal twyll.<br><br>**A2** Dylai pob corff cyhoeddus hyrwyddo pwysigrwydd diwylliant da o ran atal twyll, a hyrwyddo ei bwysigrwydd yn weithredol er mwyn rhoi hyder i staff ac aelodau’r cyhoedd na chaiff twyll ei oddef. |
| **Fframweithiau rheoli risg a sicrhau rheolaeth**  | **A3** Dylai pob corff cyhoeddus gynnal asesiadau cynhwysfawr o’r risgiau o dwyll, gan ddefnyddio staff sydd â’r sgiliau priodol ac ystyried gwybodaeth genedlaethol yn ogystal â gwybodaeth sy’n benodol i sefydliad.<br><br>**A4** Dylai asesiadau o’r risgiau o dwyll gael eu defnyddio fel adnodd byw a’u hintegreiddio yn y fframwaith cyffredinol ar gyfer rheoli risg, er mwyn sicrhau bod y risgiau dan sylw’n cael eu rheoli’n briodol a’u huwchgyfeirio fel y bo raid. |
| **Polisïau a hyfforddiant**  | **A5** Mae angen i bob corff cyhoeddus gael cyfres gynhwysfawr wedi’i diweddaru o bolisïau a gweithdrefnau, sydd gyda’i gilydd yn strategaeth gydlynus ar gyfer adnabod a rheoli risgiau o dwyll ac ymateb iddynt.<br><br>**A6** Dylai staff sy’n gweithio ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru gael hyfforddiant ynghylch ymwybyddiaeth o dwyll fel y bo’n briodol i’w rôl, er mwyn gwella effeithiolrwydd sefydliadau o safbwynt atal twyll, ei ganfod ac ymateb iddo.<br><br>**A7** Dylid rhoi cyhoeddusrwydd i achosion lle caiff twyll ei ganfod a lle eir i’r afael ag ef yn llwyddiannus, er mwyn atgyfnerthu neges gadarn o’r brig na chaiff twyll ei oddef. |

| Thema | Beth sy’n gorfod digwydd nesaf? |
|---|---|
| **Capasiti ac arbenigedd**<br> | **A8** Mae angen i bob corff cyhoeddus greu digon o gapasiti i sicrhau bod gwaith atal twyll yn cael adnoddau effeithiol, fel bod ymchwiliadau’n cael eu cynnal yn broffesiynol ac mewn modd sy’n arwain at gosbi’r tramgwyddwyr yn llwyddiannus ac at adennill colledion.<br><br>**A9** Dylai pob corff cyhoeddus fod yn medru cael gafael ar staff sydd wedi cael hyfforddiant ynghylch atal twyll ac sy’n bodloni safonau proffesiynol cydnabyddedig.<br><br>**A10** Dylai pob corff cyhoeddus ystyried modelau a fabwysiadwyd mewn rhannau eraill o’r DU, sy’n ymwneud â chyfuno / rhannu adnoddau er mwyn sicrhau bod cynifer ag sy’n bosibl o staff ar gael sydd â’r sgiliau priodol. |
| **Offer a data**<br> | **A11** Mae angen i bob corff cyhoeddus ddatblygu a chynnal ymatebion deinamig a hyblyg ym maes atal twyll, sy’n cynyddu’r tebygolrwydd y bydd camau gorfodi llwyddiannus yn cael eu cymryd ac sy’n ategu’r agwedd o’r brig nad yw’r sefydliad yn goddef twyll.<br><br>**A12** Dylai pob corff cyhoeddus archwilio a chroesawu cyfleoedd i arloesi gyda gwyddor dadansoddi data, er mwyn cryfhau trefniadau ar gyfer atal a chanfod twyll. |
| **Cydweithio**<br> | **A13** Dylai cyrff cyhoeddus weithio gyda’i gilydd, dan Ddeddf yr Economi Ddigidol a chan ddefnyddio datblygiadau ym maes gwyddor dadansoddi data, i rannu data a gwybodaeth er mwyn helpu i ganfod twyll a brwydro yn ei erbyn. |
| **Adrodd a chraffu**<br> | **A14** Mae angen i gyrff cyhoeddus grynhoi gwybodaeth am golledion ac adenillion a rhannu gwybodaeth â’i gilydd am dwyll er mwyn creu darlun cenedlaethol mwy cywir, cryfhau rheolaeth, gwella gwaith monitro a hybu camau gweithredu a gaiff eu targedu.<br><br>**A15** Rhaid i bwyllgorau archwilio ddechrau ymwneud yn llawn ag atal twyll, gan ddarparu cymorth a chyfeiriad, monitro a dwyn swyddogion i gyfrif. |

## Y pandemig COVID-19: astudiaeth achos ynghylch sut y mae sgamwyr a thwyllwyr yn barod i ecsbloetio argyfwng

Rydym yn gwybod o brofiad bod twyllwyr yn ymddangos cyn gynted ag y bydd cyfle’n codi. Hyd yma mae 15 o unigolion wedi cael eu carcharu am dwyllo’n dilyn trasiedi’r tân yn Nhŵr Grenfell. Roedd twyllwyr a sgamwyr wrth eu gwaith yn sydyn yn gynharach eleni tra oedd y llifogydd yn ne Cymru yn dinistrio cartrefi a bywydau pobl leol.

Yn ôl y disgwyl, gwelwyd cynnydd enfawr mewn gweithgarwch twyllodrus, yn enwedig mewn seiberdroseddu, yn ystod y pandemig COVID-19 presennol.

Adroddwyd ynghylch yr achosion positif cyntaf o COVID-19 yn y DU ar 31 Ionawr 2020. Erbyn hynny, roedd y twyllwyr a’r sgamwyr wedi bwrw iddi ac wrthi eisoes yn gweithio’n ddiwyd.

Cafodd Action Fraud, sef canolfan y DU ar gyfer adrodd ynghylch twyll, ei adroddiad cyntaf ynghylch twyll yn ymwneud â COVID-19 ar 9 Chwefror. Ers hynny, mae nifer yr adroddiadau wedi cynyddu’n sylweddol ledled y DU – cafwyd adroddiadau ar y cyfryngau ynghylch nifer ddigynsail o sgamiau sy’n gysylltiedig â’r feirws.

Rydym wedi gweld enghreifftiau o arfer da gan rai cyrff cyhoeddus a sefydliadau yng Nghymru wrth iddynt nodi’r risgiau o dwyll a’u rhannu â chyrff eraill a dinasyddion. Mae Llywodraeth Cymru wrthi’n trafod â Swyddfa’r Cabinet yn Llywodraeth y DU ac wrthi’n rhannu ei chanllawiau a’r gwersi a ddysgwyd ganddi ynghylch atal twyll â gweddill y gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys arweinwyr atal twyll mewn awdurdodau lleol. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cytuno i gadw a datblygu’r grŵp hwn ar ôl y pandemig COVID. At hynny, mae’r wybodaeth a gafwyd o’r cyfarfodydd hyn wedi cynorthwyo’r Pennaeth Atal Twyll i rannu gwybodaeth am dwyll â Swyddfa’r Cabinet ac â’r tri arweinydd arall atal twyll yn y gweinyddiaethau datganoledig.

Ond a yw ymateb y sector cyhoeddus yng Nghymru wedi bod yn adweithiol yn hytrach nag yn rhagweithiol? Beth y gallwn ei wneud yn well? Er bod globaleiddio wedi bod yn fanteisiol i’r twyllwyr, gall hefyd fod yn fanteisiol i arbenigwyr atal twyll; cawsom wybod yn gynnar am sgamiau filoedd o filltiroedd i ffwrdd ychydig wythnosau cyn i’r achos cyntaf o COVID-19 gael ei ganfod yn y DU.

### Y pandemig COVID-19: astudiaeth achos ynghylch sut y mae sgamwyr a thwyllwyr yn barod i ecsbloetio argyfwng

Rydym o'r farn bod y pandemig COVID-19 yn cynnig cyfle pwysig i weithwyr ym maes atal twyll yng Nghymru ddod ynghyd (drwy ddulliau priodol) a myfyrio ynghylch cyflymder ac effeithiolrwydd eu hymateb i'r sgamwyr a'r twyllwyr.

Gallai'r materion allweddol a'r argymhellion a nodir yn yr adroddiad hwn helpu i bennu agenda neu fframwaith ar gyfer digwyddiad o'r fath. Ni chafwyd erioed gyfle mwy amserol i arweinwyr y sector cyhoeddus yng Nghymru ac arbenigwyr atal twyll ystyried:

- sut mae creu arweinyddiaeth strategol, gwaith cydlynu a goruchwyliaeth gryfach ym maes atal twyll ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru;
- sut mae gwneud y defnydd gorau o gapasiti a gallu ym maes atal twyll, ac archwilio'r potensial i gael trefniadau, adnoddau ac arbenigedd a rennir;
- sut mae sicrhau cydbwysedd gwell rhwng gweithgareddau rhagweithiol ac adweithiol ym maes atal twyll;
- sut mae codi ymwybyddiaeth ymhlith gweithwyr a rhoi'r hyfforddiant angenrheidiol i'r sawl sydd fwyaf tebygol o ddod ar draws twyll; a
- sut mae gwerthuso risgiau o dwyll yn fwy effeithiol a rhannu gwybodaeth am dwyll o fewn sectorau ac ar eu traws.

Felly, beth yr ydym yn ei wybod yn barod am ymateb y twyllwyr i'r pandemig?

Mae twyllwyr wedi elwa ar nifer o ffactorau, er enghraifft:

- mae mwy o bobl yn treulio amser ar-lein yn siopa ac yn rhyngweithio'n gymdeithasol â'i gilydd. Caiff pobl hŷn eu hystyried yn bobl sy'n arbennig o agored i niwed, oherwydd bod ganddynt lai o sgiliau cyfrifiadurol yn gyffredinol a'u bod yn fwy tebygol o gael eu twyllo gan sgamiau megis e-bost gwe-rwydo a chyfleoedd i archebu cynnyrch ffug megis masgiau wyneb a hylif diheintio.
- mae patrymau gweithio wedi newid ar fyr rybudd, sy'n gallu gadael gwendidau mewn prosesau a gweithdrefnau.
- mae swm digynsail o arian cyhoeddus wedi'i roi mewn ystod o gynlluniau cymorth ariannol newydd ac arloesol ar gyfer busnesau ac unigolion.

**Y pandemig COVID-19: astudiaeth achos ynghylch sut y mae sgamwyr a thwyllwyr yn barod i ecsbloetio argyfwng**

Roedd twyllwyr a sgamwyr wedi gallu bwrw iddi'n gyflym am nifer o resymau:

- maent yn dda iawn am werthuso risgiau ac ecsbloetio gwendidau a all fod ar lefel prosesau neu ar lefel unigolion;
- mae ganddynt offer a methodolegau cadarn ac maent yn gallu eu haddasu ar fyr rybudd i gyfle newydd; ac
- nid ydynt yn cydnabod ffiniau daearyddol a gallant fod yn effeithiol drwy weithio ar eu pen eu hunain a thrwy gydweithio ag unigolion sydd o'r un anian â nhw.

Mae mwy o enghreifftiau nag y gellir sôn amdanynt yma o dwyll a sgamiau'n ymwneud â COVID-19 yn ymddangos. Fodd bynnag, mae nifer o themâu'n dod i'r amlwg:


- roedd yr adroddiadau cyntaf yn ymwneud â gwerthu cyfarpar diogelu personol megis masgiau wyneb a hylif diheintio'r dwylo, a chitiau profi. Roedd yr eitemau fel rheol yn ffug, neu'n aml nid oeddent yn cyrraedd ar ôl talu amdanynt[1].
- roedd yr adroddiadau nesaf a ymddangosodd yn ymwneud ag e-bost gwe-rwydo. Er enghraifft, mewn un e-bost honnwyd bod y neges yn cael ei hanfon gan yr Adran Gwaith a Phensiynau i ofyn i'r unigolyn am fanylion cerdyn debyd neu gredyd, a bod hawl gan yr unigolyn i gael ad-daliad treth gyngor.
- wrth i sylw ac adnoddau sefydliadau gael eu dargyfeirio at ddulliau newydd o weithio, ac wrth i lawer o staff gael eu hatal dros dro rhag gweithio, cynyddodd nifer yr ymosodiadau seiberddiogelwch er mwyn dwyn data sensitif o ran busnes a data personol.
- wrth i nifer gynyddol o bobl weithio gartref yn dilyn cyfyngiadau ar symud ledled y DU, dechreuodd ymgyrchoedd gwe-rwydo dargedu rhaglenni y dibynnir arnynt wrth weithio o bell, yn enwedig rhaglenni poblogaidd ar gyfer galwadau cynadledda, a thargedu cwmnïau dosbarthu parseli.

1 Cyflwynodd y GIG yng Nghymru drefniadau i leihau'r risg hon o dwyll ac ni ddatblygodd yn broblem.

**Y pandemig COVID-19: astudiaeth achos ynghylch sut y mae sgamwyr a thwyllwyr yn barod i ecsbloetio argyfwng**

- wrth i’r ffocws cenedlaethol droi at brofi ac olrhain pobl, cafodd rhwyd y twyllwyr ei thaflu’n ehangach a dechreuodd dargedu pawb yn ddiwahân, fel y gwelwyd mewn neges destun ffug a oedd yn ceisio twyllo pobl i gredu eu bod wedi bod mewn cysylltiad â rhywun a gafodd brawf positif am y feirws ac a oedd yn cyfeirio’r bobl hynny at wefan er mwyn iddynt gael rhagor o wybodaeth. Yna, roedd y ddolen gyswllt yn cael ei defnyddio i gynaeafu data personol ac ariannol.

Byddai ymateb diguro o safbwynt atal twyll yn golygu bod arbenigwyr atal twyll wedi nodi’r risgiau o leiaf yr un mor gyflym â’r twyllwyr, os nad yn gynt. Byddai hefyd yn golygu bod ganddynt yr offer cywir i atal a chanfod twyllwyr sy’n ecsbloetio unrhyw gyfleoedd newydd; a bod yr ymateb o safbwynt atal twyll wedi symud yn gyflym drwy gydweithio a rhannu gwybodaeth yn effeithiol.



# Diwylliant ac arweinyddiaeth ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru

01

## Pam y mae’r thema yn bwysig?

1.1 Mae Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr yn cydnabod bod twyll yn un o’r troseddau mwyaf cyffredin yng nghymdeithas yr oes sydd ohoni. Mae pob punt a gaiff ei dwyn o’r sector cyhoeddus yn golygu bod llai o arian ar gael i’w wario ar wasanaethau allweddol megis iechyd, addysg a gwasanaethau cymdeithasol. Gall cyrff y sector cyhoeddus leihau’r risgiau sy’n deillio o dwyll drwy sicrhau bod ganddynt y diwylliant sefydliadol cywir a ategir gan drefniadau effeithiol ar gyfer atal twyll.

1.2 Mae arweinyddiaeth gref yn sefydlu’r agwedd briodol o frig sefydliad ac mae’n chwarae rhan hollbwysig yn y broses o feithrin diwylliant o safonau moesegol uchel. Mae’n bwysig bod uwch-reolwyr yn arwain drwy esiampl a’u bod yn anfon neges glir na fydd twyll o du mewn na thu allan i’r sefydliad yn cael ei oddef. Gall agwedd gadarn ar y brig godi proffil risgiau o dwyll a hyrwyddo’r safonau a’r dulliau gweithredu gorau ym maes gwaith atal twyll.

## Beth welsom ni?

1.3 Heblaw am yn y GIG, ceir diffyg dull gweithredu strategol, arweiniad, gwaith cydlynu a goruchwyliaeth drosfwaol.

1.4 Yn GIG Cymru mae Gwasanaeth Atal Twyll y GIG[2] yn darparu arweinyddiaeth, sgiliau ymchwilio arbenigol, cymorth ac arweiniad i’r sector ac mae Grŵp Llywio Atal Twyll[3] yn darparu cyfeiriad strategol a goruchwyliaeth. Mae’r model hwn ar gyfer arweinyddiaeth yn cynnig dull cydgysylltiedig o atal twyll ar draws y GIG yng Nghymru ynghyd â diwylliant da o atal twyll, a ategir gan broses integredig ar gyfer craffu ar y trefniadau. Mae’r fframwaith cyfreithiol sy’n benodol i GIG Cymru ynghyd â lefelau buddsoddi’n sicrhau bod gan atal twyll broffil uchel a systemau cadarn ar gyfer gorfodi ac ar gyfer adennill colledion. Ar lefel leol, roedd arweinyddiaeth strategol yn amlwg mewn Byrddau Iechyd gan fod neges gyson yn cael ei rhannu, yn fewnol ac yn allanol, na chaiff twyll ei oddef.

2 Caiff ei letya gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru

3 Is-grŵp o Fforwm Cyfarwyddwyr Cyllid Cymru Gyfan

1.5 Ar draws awdurdodau lleol ceir diffyg arweinyddiaeth strategol, arweiniad, gwaith cydlynu a goruchwyliaeth ar lefel y sector cyfan ym maes atal twyll. Yn yr awdurdodau unigol, gwelsom ddatganiadau mewn polisïau a dogfennau strategol, a oedd o blaid peidio â goddef twyll. Ond gellir gwneud mwy o lawer i atgyfnerthu'r agwedd o'r brig ar lefel ymarferol. Gwelsom enghreifftiau lle mae'r tîm arwain yn hyrwyddo'n weithredol bwysigrwydd diwylliant da o atal twyll, drwy ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth, drwy lythyrau newyddion i staff a thrwy ymwneud yn weithredol â thimau atal twyll. Ond mewn llawer o awdurdodau, gwelsom hefyd nad oedd fawr ddim tystiolaeth bod y neges yn cael ei hanfon o'r brig ac nad oedd fawr ddim blaenoriaeth yn cael ei rhoi i waith atal twyll. Yn aml roedd blaenoriaethau'n cystadlu â'i gilydd ac, o ganlyniad, nid oedd fawr ddim amser yn cael ei neilltuo i waith atal twyll ac roedd proffil y gwaith hwnnw'n aml yn isel.

1.6 Mae'r sefyllfa'n gymysg o safbwynt Llywodraeth Ganolog. Yn Llywodraeth Cymru, gwelsom dystiolaeth fod atal twyll yn cael ei gymryd o ddifrif a bod tîm bach wedi sicrhau llawer o ganlyniadau llwyddiannus, er ei fod yn tueddu i roi pwys ar gyflawni gwaith adweithiol yn hytrach na gwaith rhagweithiol. Cawsom ein calonogi o weld bod Llywodraeth Cymru wedi derbyn y ddau argymhelliad a wnaed gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn dilyn ein hadroddiad cyntaf. Fodd bynnag, ceir bwlch o hyd y mae angen mynd i'r afael ag ef o ran arweinyddiaeth.

1.7 Ar draws y cyrff llywodraeth ganolog eraill a archwiliwyd gennym, nid oes blaenoriaeth mor uchel yn cael ei rhoi bob amser i atal twyll. Ymddengys mai un o'r rhesymau am hynny yw'r ffaith bod nifer yr achosion o dwyll a ganfyddir ac yr adroddir yn eu cylch yn fach iawn; mae'n rheswm sy'n codi cwestiwn anodd, sef a yw hynny oherwydd diffyg buddsoddi mewn gwaith atal twyll neu oherwydd bod nifer y troseddau sy'n digwydd yn fach mewn gwirionedd. Wedi dweud hynny, mae'r ail esboniad yn mynd yn groes i'r holl ymchwil a gyflawnir gan arweinwyr cydnabyddedig yn y maes, megis CIPFA a'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol.

1.8 Mae'r bygythiad a achosir gan dwyll yn cael ei gydnabod yn gynyddol yn y DU hefyd. Er enghraifft, mae Llywodraeth y DU wrthi'n gweithio i sicrhau bod llywodraeth ganolog, a'r sector cyhoeddus yn ehangach, yn fan lle caiff twyll ei ganfod yn weithredol a lle ymdrinnir ag ef yn gadarn. Mae Llywodraeth y DU wrthi'n trawsnewid ei holl agwedd at atal twyll drwy:

a sefydlu swyddogaeth atal twyll;

b datblygu a lansio Safon Swyddogaethol Llywodraeth y DU (GovS013);

c sefydlu 'Proffesiwn Atal Twyll y Llywodraeth' er mwyn datblygu pobl a chynyddu gallu;

ch darparu cyngor arbenigol i weddill y llywodraeth ynghylch sut mae ymdrin â thwyll;

d darparu gwasanaethau arbenigol er mwyn cynorthwyo cyrff cyhoeddus; ac

dd cydweithio â llywodraethau tramor er mwyn dod ag arbenigedd pellach i'r DU.

# Beth y gall y sector cyhoeddus yng Nghymru ei wneud i wella?

## Argymhellion

**A1** Dylai Llywodraeth Cymru wella ei harweinyddiaeth strategol ym maes atal twyll ar draws y gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru, a chyflawni rôl gydlynu os yw hynny'n bosibl iddi, gan gydnabod bod cyrff unigol yn parhau'n gyfrifol am eu gweithgareddau eu hunain ym maes atal twyll. Wrth wneud hynny, gallai ystyried:

- ffurfio partneriaethau strategol â'r sawl sydd â rhan allweddol i'w chwarae'n genedlaethol ac yn rhyngwladol;
- datblygu a chyflwyno strategaeth a gweledigaeth Cymru gyfan ar gyfer atal twyll;
- argymell/hyrwyddo safonau gofynnol ar gyfer trefniadau atal twyll yn y sector cyhoeddus, sy'n debyg i'r trefniadau a sefydlwyd gan Lywodraeth y DU;
- codi statws staff atal twyll drwy gydnabod bod atal twyll yn broffesiwn sydd â chymwyseddau hanfodol;
- cefnogi'r sectorau eraill drwy gynnig cyfleoedd o ran cyllid Buddsoddi i Arbed, er enghraifft, a chefnogi'r gwaith o ddatblygu cymwyseddau proffesiynol ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru; a
- darparu cyngor ac arweiniad amserol ynghylch pynciau 'llosg' drwy gasglu a dosbarthu gwybodaeth bwysig a dadansoddi tueddiadau.

**A2** Dylai pob corff cyhoeddus hyrwyddo pwysigrwydd diwylliant da o ran atal twyll, a hyrwyddo ei bwysigrwydd yn weithredol er mwyn rhoi hyder i staff ac aelodau'r cyhoedd na chaiff twyll ei oddef.

# Fframweithiau rheoli risg a sicrhau rheolaeth

02

## Pam y mae'r thema yn bwysig?

2.1 Mae twyllwyr yn mynd yn fwyfwy soffistigedig ac maent yn gwerthuso cyfleoedd a risgiau mewn amser real. Yn aml, nid yw'r systemau ar gyfer rheoli a lleihau risg mewn cyrff cyhoeddus yn gallu dal i fyny â'r newidiadau i natur ac effaith twyll posibl. Creodd y llifogydd diweddar yn ne Cymru gyfleoedd ar gyfer sgamiau o fewn diwrnodau i'r llifogydd ddigwydd. Mae arbenigwyr diogelwch wedi adrodd ynghylch cynnydd enfawr mewn gweithgarwch twyllodrus yn ystod y pandemig COVID-19, oherwydd ei fod wedi creu cyfleoedd dirifedi i dwyllwyr (gweler yr **Astudiaeth Achos ar dudalen 10**).

2.2 Dylai asesiad o'r risgiau o dwyll fod yn arfarniad gonest o'r risgiau, sy'n defnyddio ystod o ffynonellau megis gwybodaeth genedlaethol, gwybodaeth leol, adroddiadau archwilio, ymarferion rhannu syniadau a chanlyniadau paru data. Dylai asesiadau risg fod yn ddogfennau byw a dylid eu hadolygu'n gyson. Ar ôl nodi'r risgiau, gall cyrff eu gwerthuso wedyn gan asesu eu tebygolrwydd ac asesu'r effaith pe bai'r twyll yn digwydd. Dim ond pan gaiff risgiau eu nodi a'u gwerthuso'n gywir y gall cyrff cyhoeddus fynd i'r afael â nhw mewn modd cymesur sy'n seiliedig ar flaenoriaethau, a rhoi camau gweithredu a rheolaeth briodol ar waith i reoli neu leihau'r risgiau hynny.

2.3 Mae'n bwysig bod gan sefydliadau fframwaith effeithiol ar gyfer sicrhau rheolaeth, er mwyn helpu i leihau'r risgiau a nodwyd. Gall amgylchedd cryf ar gyfer rheolaeth fewnol helpu i atal twyll rhag digwydd yn y lle cyntaf, a chanfod twyll os oes achos o dwyll wedi digwydd. Bydd twyllwyr yn ceisio osgoi'r fframweithiau a sefydlwyd ar gyfer sicrhau rheolaeth, felly mae'n bwysig bod fframweithiau sicrhau rheolaeth yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae rhaglen gref o reolaeth, sy'n golygu bod twyllwyr yn wynebu posibilrwydd go iawn y gallai eu twyll gael ei ganfod, yn helpu i leihau'r risg. Pan gaiff achosion o dwyll eu darganfod, dylai fframweithiau sicrhau rheolaeth gael eu hadolygu er mwyn nodi gwendidau a chyflwyno gwelliannau. Mae gan dimau archwilio mewnol arbenigedd ym maes dylunio fframweithiau sicrhau rheolaeth a rhoi prawf arnynt, a dylent gyflawni gwaith ar systemau allweddol gan ddefnyddio dull gweithredu sy'n seiliedig ar risg.

# Beth welsom ni?

2.4 Mae ansawdd gwaith asesu a lleihau risgiau ym maes atal twyll yn amrywio’n sylweddol yn y sector cyhoeddus yng Nghymru, ac mae lle’n gyffredinol i wella ansawdd ac amseroldeb y gwaith hwnnw.

2.5 Yn y GIG, caiff Rhybuddion Cenedlaethol am Risgiau o Dwyll eu llunio gan Awdurdod Atal Twyll y GIG. Caiff y rhain eu dosbarthu fel mater o drefn i bob Arbenigwr Atal Twyll Lleol a phob Cyfarwyddwr Cyllid ar draws GIG Cymru. At hynny, mae’n ofynnol i’r Arbenigwyr Atal Twyll Lleol gynnal eu hasesiadau lleol eu hunain o risg. Mae hwn yn ofyniad cymharol newydd, a gwelsom fod yr asesiadau hynny’n dal i gael eu datblygu a’u sefydlu. Mae Strategaeth Mynd i’r Afael â Thwyll y GIG yn cydnabod mai un her allweddol ar gyfer y sector yw’r angen i ddatblygu dadansoddiad cynhwysfawr o risgiau penodol o dwyll er mwyn sicrhau bod adnoddau atal twyll yn cael eu cyfeirio at y meysydd mwyaf priodol yn y sector. Mae’r Grŵp Llywio Atal Twyll wedi cynnal asesiad cyffredinol o risg ac wedi llunio mapiau sicrwydd ar gyfer pob un o’r prif agweddau ar dwyll. Bydd y mapiau hynny’n cael eu defnyddio i dargedu’r maes y bydd gwaith rhagweithiol yn digwydd ynddo.

2.6 Drwy ein gwaith, gwelsom fod rhai awdurdodau lleol a chyrff llywodraeth ganolog wedi cynnal asesiadau o’r risgiau o dwyll ond bod yna lawer nad oeddent wedi paratoi asesiad o’r fath ers sawl blwyddyn. Nid oedd gan rai cyrff yn y sectorau hyn unrhyw asesiad o’r risgiau o dwyll, ac felly nid oeddent wedi asesu’n gywir pa mor debygol oedd y risg na beth fyddai ei heffaith. Heb yr elfen allweddol hon, ni all cyrff gyfeirio adnoddau’n briodol na lleihau’n ddigonol y risg o ddioddef colledion oherwydd twyll. O ganlyniad, nid yw strategaethau a rhaglenni gwaith ar gyfer atal twyll yn arbennig o ddefnyddiol na pherthnasol gan nad ydynt yn targedu’r prif feysydd risg.

2.7 Drwy ein gwaith, gwelsom hefyd ei bod yn bosibl nad oedd asesiadau risg, hyd yn oed lle’r oeddent yn cael eu cynnal, yn cael eu hintegreiddio yn y fframwaith ehangach ar gyfer rheoli risg. Ni chaiff twyll ei adlewyrchu fel rheol mewn cofrestrau risg corfforaethol. Ni welsom lawer o systemau cydgysylltiedig ar gyfer sicrhau bod risgiau o dwyll yn cael eu cyfleu, eu perchenogi a’u monitro’n briodol yn y corff a gâi ei archwilio. Yn hytrach, caiff asesiadau o’r risgiau o dwyll eu hystyried yn aml yn ddogfennau annibynnol nad ydynt yn elwa ar unrhyw berchenogaeth gorfforaethol nac unrhyw gamau gweithredol i reoli’r risg a nodir ynddynt. O ganlyniad i’r dull hwn o weithredu, ni chaiff risgiau o dwyll eu rhannu’n ddigonol ar draws adrannau.

2.8 Gwelsom rywfaint o arfer da o safbwynt rhannu gwybodaeth am y risgiau o dwyll. Wrth ymateb i'r pandemig coronafeirws, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fwletin am y risgiau o dwyll yn gynnar ym mis Ebrill 2020, gan nodi'r risgiau a oedd yn dod i'r amlwg i'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Cyn i fwletin Llywodraeth Cymru gael ei gyhoeddi, cyhoeddodd Swyddogaeth Atal Twyll Llywodraeth y DU ei chanllaw ei hun: Fraud Control in Emergency Management – COVID-19 UK Government Guidance. Mae'r canllaw yn tynnu sylw at bwysigrwydd asesu risg, gwirio taliadau'n effeithiol a sicrhau trefniadau o dan diwydrwydd dyladwy ac mae'n tynnu sylw at yr angen am drefniadau cadarn ar gyfer adennill arian a delir yn anghywir. At hynny, cafwyd enghreifftiau da mewn awdurdodau lleol o waith a wneir i godi ymwybyddiaeth o sgamiau ymhlith trigolion lleol.

2.9 Yn gyffredinol gwelsom fod gan gyrff cyhoeddus ar draws pob sector fframweithiau cadarn ar gyfer rheolaeth fewnol, a bod timau archwilio mewnol yn rhoi prawf ar fframweithiau sicrhau rheolaeth yn rhan o'u rhaglenni blynyddol o waith ym maes sicrwydd. Fodd bynnag, gwelsom nad yw timau archwilio mewnol bob amser yn ystyried y risgiau o dwyll sy'n gysylltiedig â systemau, yn rhan o'u rhaglenni gwaith. At hynny, lle caiff systemau a phrosesau newydd eu sefydlu, gwelsom nad yw sefydliadau bob amser yn defnyddio cysylltiadau ym maes atal twyll a thimau archwilio mewnol i geisio dylunio systemau fel nad yw'n bosibl eu twyllo.

## Beth y gall y sector cyhoeddus yng Nghymru ei wneud i wella?

### Argymhellion

**A3** Dylai pob corff cyhoeddus gynnal asesiadau cynhwysfawr o'r risgiau o dwyll, gan ddefnyddio staff sydd â'r sgiliau priodol ac ystyried gwybodaeth genedlaethol yn ogystal â gwybodaeth sy'n benodol i sefydliad.

**A4** Dylai asesiadau o'r risgiau o dwyll gael eu defnyddio fel adnodd byw a'u hintegreiddio yn y fframwaith cyffredinol ar gyfer rheoli risg, er mwyn sicrhau bod y risgiau dan sylw'n cael eu rheoli'n briodol a'u huwchgyfeirio fel y bo raid.

# Polisïau a hyfforddiant

03

## Pam y mae’r thema yn bwysig?

3.1 Mae fframwaith cadarn o bolisïau yn galluogi sefydliadau i gyfarwyddo eu dull o atal twyll ac i hyrwyddo ymddygiad moesegol da. Dylai cyfres o bolisïau a gweithdrefnau fod ar waith, sy’n egluro beth a ddisgwylir a beth yw canlyniadau torri’r rheolau. Dylai codau ymddygiad egluro’r safonau a ddisgwylir gan weithwyr a thynnu sylw at bwysigrwydd datgan pob gwrthdaro o ran buddiannau a sefydlu rheolau ynghylch rhoddion a lletygarwch.

3.2 Mae rhoi cyhoeddusrwydd i achosion o dwyll a’r camau a gymerwyd i adennill colledion yn helpu i atgyfnerthu’r neges o’r brig na chaiff twyll ei oddef. Gall cyhoeddusrwydd helpu i atal eraill rhag gwneud drygioni, oherwydd gall dynnu sylw at ganlyniadau niweidiol eu gweithredoedd.

3.3 Yn aml, staff fydd yn sylwi gyntaf ar afreoleidd-dra neu dwyll posibl a nhw’n aml fydd y rheng flaen yn y frwydr yn erbyn twyll. Mae angen bod y staff dan sylw’n gallu cael gafael yn hawdd ar bolisi da ar atal twyll a chwythu’r chwiban fel eu bod yn deall eu rolau a’u cyfrifoldebau ac yn deall y broses y mae’n rhaid iddynt ei dilyn os ydynt yn amau twyll.

3.4 Mae hyfforddiant effeithiol yn helpu staff i ddehongli polisïau a chodau ymddygiad, ac yn rhoi’r hyder a’r sgiliau iddynt adrodd ynghylch achosion o dwyll a amheuir. Fodd bynnag, dylai hyfforddiant ac ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth gael eu hadolygu’n barhaus, a rhaid bod cysylltiad rhyngddynt a’r asesiadau risg byw fel bod unrhyw risgiau neu achosion newydd o dwyll sy’n wynebu cyrff cyhoeddus yn cael eu rhannu’n gyflym ymhlith staff a chontractwyr os yw hynny’n briodol.

## Beth welsom ni?

3.5 Yn gyffredinol, gwelsom fod cyrff cyhoeddus wedi paratoi ac wedi cymeradwyo ystod o bolisïau sy’n egluro’r prosesau y dylid eu dilyn os yw’r staff yn amau eu bod wedi dod ar draws achos o dwyll. Fodd bynnag, gwelsom fod rhai polisïau wedi dyddio, bod rhai yn dal ar ffurf drafft, ac nad oedd rhai ar gael yn hawdd i’r staff.

3.6 Mae pob un o gyrff y GIG wedi datblygu strategaethau cynhwysfawr ar gyfer atal twyll (a gaiff eu llywio gan strategaeth genedlaethol drosfwaol) ond gwelsom mai ychydig yn unig o gyrff eraill y sector cyhoeddus oedd wedi gwneud hynny. Mae strategaethau o’r fath yn egluro dulliau clir o reoli risgiau o dwyll ynghyd ag ymatebion a chamau gweithredu, maent yn diffinio rolau a chyfrifoldebau, a cheir croesgyfeiriadau at bolisïau eraill fel ei bod yn hawdd i’r staff eu deall.

3.7 Mae gan y GIG bolisi o roi cyhoeddusrwydd yn rhagweithiol i achosion llwyddiannus o ganfod twyll. Mae Gwasanaeth Atal Twyll y GIG yn gwneud hynny drwy gyhoeddi datganiadau i'r wasg a thrwy gysylltu â'r cyfryngau yn lleol i drefnu cyfweliadau a chyfleoedd hyrwyddo. Mae cyhoeddusrwydd yn helpu i godi ymwybyddiaeth o'r risgiau o dwyll ac mae hefyd yn atal staff a chontractwyr rhag twyllo. Drwy roi cyhoeddusrwydd i waith atal twyll a chodi ymwybyddiaeth o effeithiau twyll, mae'r GIG yn cynnwys staff, rhanddeiliaid allweddol a'r cyhoedd yn y frwydr yn erbyn twyll.

3.8 Ni welsom yr un lefel o waith rhagweithiol i roi cyhoeddusrwydd mewn sectorau eraill. Mae rhai awdurdodau lleol o'r farn bod rhoi cyhoeddusrwydd i achosion yn gallu niweidio eu henw da, ac maent felly'n gyndyn o gyhoeddi gwybodaeth o'r fath. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod mwy y gellir ei wneud i roi cyhoeddusrwydd i achosion o dwyll. At hynny, mae'r lefelau isel iawn o dwyll a gaiff eu canfod mewn cyrff llywodraeth ganolog yn golygu nad oes fawr ddim cyhoeddusrwydd i'w gael a all weithredu fel dull pellach o atal twyll.

3.9 Yn ogystal, canfu ein gwaith archwilio fod lefelau'r hyfforddiant a'r gweithgarwch codi ymwybyddiaeth sy'n ymwneud yn benodol â gwaith atal twyll ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru yn amrywio'n helaeth. Gwelsom fod ychydig o gyrff cyhoeddus yn darparu hyfforddiant ynghylch ymwybyddiaeth o dwyll i bob un o'u staff. Mae rhai cyrff cyhoeddus eraill yn darparu hyfforddiant yn rhan o raglenni sefydlu staff newydd ond nid ydynt yn darparu'r hyfforddiant hwnnw i staff sydd wedi bod yn gweithio iddynt ers amser hir. Gwelsom rai enghreifftiau lle'r oedd sesiynau diweddaru hyfforddiant a modiwlau e-ddysgu yn cael eu darparu ar gyfer y staff, ond nid oedd yr enghreifftiau hynny'n gyffredin iawn. Nid yw llawer o gyrff yn darparu unrhyw hyfforddiant ynghylch atal twyll nac unrhyw ddigwyddiadau codi ymwybyddiaeth.

3.10 Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu ei bod yn bosibl nad yw cyfran sylweddol o weithwyr y sector cyhoeddus yng Nghymru wedi cael unrhyw hyfforddiant o gwbl ynghylch ymwybyddiaeth o dwyll, neu nad ydynt wedi cael unrhyw hyfforddiant o'r fath ers sawl blwyddyn.

3.11 Ceir enghreifftiau da o weithgarwch codi ymwybyddiaeth yn y GIG, lle mae gan yr Arbenigwr Atal Twyll Lleol raglen waith barhaus er mwyn datblygu a chynnal diwylliant o atal twyll yn ei Fwrdd Iechyd. Mae'r rhaglen honno'n cynnwys paratoi cyflwyniadau a chyhoeddiadau er mwyn codi ymwybyddiaeth o dwyll. Ceir enghreifftiau hefyd lle mae Arbenigwyr Atal Twyll Lleol yn cynnal arolygon staff i fesur lefelau ymwybyddiaeth y staff o dwyll er mwyn gweithredu os oes raid. At hynny, mae'r GIG wedi datblygu pecyn e-ddysgu ar gyfer pob aelod o staff am ymwybyddiaeth o dwyll, a chaiff adroddiadau ynghylch lefelau cydymffurfio ar draws sefydliadau eu cyflwyno i'r Cyfarwyddwyr Cyllid bob chwarter. Fodd bynnag, hyd yn oed yn sector y GIG, nid yw hyfforddiant ynghylch atal twyll i staff newydd yn ofyniad gorfodol yn gyffredinol.

# Beth y gall y sector cyhoeddus yng Nghymru ei wneud i wella?

## Argymhellion

**A5** Mae angen i bob corff cyhoeddus gael cyfres gynhwysfawr wedi’i diweddaru o bolisïau a gweithdrefnau, sydd gyda’i gilydd yn strategaeth gydlynus ar gyfer adnabod a rheoli risgiau o dwyll ac ymateb iddynt.

**A6** Dylai staff sy’n gweithio ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru gael hyfforddiant ynghylch ymwybyddiaeth o dwyll fel y bo’n briodol i’w rôl, er mwyn gwella effeithiolrwydd sefydliadau o safbwynt atal twyll, ei ganfod ac ymateb iddo.

**A7** Dylid rhoi cyhoeddusrwydd i achosion lle caiff twyll ei ganfod a lle eir i’r afael ag ef yn llwyddiannus, er mwyn atgyfnerthu neges gadarn o’r brig na chaiff twyll ei oddef.

# Capasiti ac arbenigedd

04

## Pam y mae'r thema yn bwysig?

4.1 Mae'n bwysig bod cyrff cyhoeddus yn penodi hyrwyddwr atal twyll, sy'n deall twyll ac sy'n arwain dull y sefydliad o weithredu ac ymateb. Mae angen bod cyrff cyhoeddus yn medru cael gafael ar ddigon o arbenigwyr atal twyll sydd â'r sgiliau priodol, er mwyn iddynt allu atal a chanfod achosion o dwyll a amheuir ac ymchwilio iddynt ac er mwyn iddynt allu diogelu eu hasedau. Wrth i risgiau o dwyll newid, dylai fod gan gyrff cyhoeddus adnoddau i ddarparu ymateb sy'n briodol i'r bygythiad.

4.2 At hynny, bydd staff medrus a phrofiadol yn helpu i sicrhau bod ymchwiliadau'n cael eu cynnal yn gywir a bod tystiolaeth yn cael ei chasglu a'i thrin yn gyfreithlon er mwyn cosbi tramgwyddwyr yn llwyddiannus ac adennill colledion.

4.3 Er bod ymchwiliadau'n hollbwysig, maent yn gallu cymryd llawer o amser ac yn gallu bod yn gostus, ac mae'r ffaith mai nifer fach ohonynt sy'n arwain at erlyn tramgwyddwyr yn llwyddiannus yn golygu nad yw cyrff cyhoeddus yn gallu dibynnu ar ymchwiliadau'n unig i fynd i'r afael â thwyll. Mae angen bod gan gyrff cyhoeddus y capasiti i atal twyll yn rhagweithiol ac ymchwilio'n adweithiol. Mae gwaith rhagweithiol yn cynnwys ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth o dwyll, hyfforddiant, dylunio polisïau a strategaethau a chryfhau rheolaeth er mwyn atal ymosodiadau.

## Beth welsom ni?

4.4 Gwelsom yn aml fod capasiti annigonol yn her allweddol y mae cyrff cyhoeddus yn ei hwynebu wrth ymdrechu i frwydro yn erbyn twyll. Ar lawr gwlad, mae capasiti a sgiliau ym maes atal twyll yn amrywio'n helaeth ar draws cyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru ac o fewn y cyrff hynny. Caiff y rhan fwyaf o'r capasiti ei neilltuo ar gyfer ymchwiliadau a gwaith ymatebol, a chaiff unrhyw gapasiti sydd dros ben ei ddefnyddio i gyflawni gwaith ataliol ym maes atal twyll.

4.5 Mewn llywodraeth leol, mae rhai swyddogion yn amheus ynghylch y lefelau o dwyll sydd yn eu sefydliadau ac yn cwestiynu'r angen am adnoddau ychwanegol. Fodd bynnag, prin yw'r adnoddau y mae'r awdurdodau lleol hynny'n eu dyrannu i drefniadau atal twyll, nid oes ganddynt asesiadau cadarn o'r risgiau o dwyll ac nid ydynt yn rhoi fawr ddim blaenoriaeth i fynd ar drywydd parau data a amlygir gan y Fenter Twyll Genedlaethol. Mae eu rhagdybiaethau ynghylch lefelau isel o dwyll yn mynd yn groes i'r holl ymchwil a gyflawnir gan arweinwyr cydnabyddedig yn y maes, megis CIPFA a'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol.

4.6 Dioddefodd awdurdodau lleol golled sylweddol i’w capasiti ym maes atal twyll pan gafodd y Gwasanaeth Sengl Ymchwilio i Dwyll, sy’n wasanaeth annibynnol, ei greu yn 2014. Mae’r gwasanaeth hwnnw’n bartneriaeth rhwng yr Adran Gwaith a Phensiynau, Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi ac awdurdodau lleol ac mae’n ymdrin â thwyll sy’n gysylltiedig â budd-daliadau lles. Gadawodd mwyafrif yr arbenigwyr atal twyll y sector llywodraeth leol er mwyn gweithio i’r sefydliad newydd hwnnw. Mae nifer fach o awdurdodau wedi cadw staff profiadol a medrus ym maes atal twyll, ond timau archwilio mewnol yn bennaf sy’n gorfod cyflawni’r gwaith hwnnw erbyn hyn.

4.7 Drwy ein gwaith, gwelsom fod y trefniadau ar gyfer atal twyll yn fwy datblygedig yn gyffredinol yn yr awdurdodau lleol a oedd wedi cadw adnodd pwrpasol ac arbenigol ar gyfer atal twyll. Mewn awdurdodau lle caiff y gwaith atal twyll ei gyflawni gan dimau archwilio mewnol, gwelsom fod cyfaddawdu’n gorfod digwydd rhwng gwaith atal twyll a’r rhaglen gyffredinol o waith sy’n ymwneud â sicrwydd, oherwydd prinder adnoddau ac oherwydd blaenoriaethau sy’n cystadlu â’i gilydd.

4.8 Mewn rhai awdurdodau lleol, gwelsom hefyd fod sawl tîm yn chwarae rhan yn y gwaith o atal twyll, er enghraifft bod y tîm archwilio mewnol, tîm y dreth gyngor a’r tîm adnoddau dynol i gyd yn cyfrannu i’r gwaith. Er bod hynny’n ddefnyddiol o safbwynt ychwanegu capasiti, gwelsom ei fod yn gallu arwain at ddiffyg cydlynu ac integreiddio rhwng y timau dan sylw ac at ddiffyg eglurder yn y darlun cyffredinol o weithgarwch atal twyll.

4.9 Yn gyffredinol caiff mwy o adnoddau eu dyrannu i waith atal twyll yn y GIG nag mewn cyrff eraill yn y sector cyhoeddus, ac mae’r adnodd sy’n seiliedig ar Arbenigwyr Atal Twyll Lleol wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae gan Wasanaeth Atal Twyll GIG Cymru dîm canolog sy’n ymchwilio i achosion mawr a chymhleth o dwyll ac sy’n darparu adnodd ymchwilio ariannol. Mae’r tîm hefyd yn darparu arweiniad, gwybodaeth a chymorth o ran ymchwilio i’r rhwydwaith o Gyfarwyddwyr Cyllid ac Arbenigwyr Atal Twyll Lleol sydd mewn cyrff iechyd yng Nghymru. At hynny, mae Cyfarwyddiadau Llywodraeth Cymru yn mynnu y dylai pob corff iechyd benodi o leiaf un Arbenigwr Atal Twyll Lleol sy’n weithiwr proffesiynol achrededig ym maes atal twyll. Yr Arbenigwyr Atal Twyll Lleol hyn yw’r prif bwyntiau cyswllt ar gyfer gwaith atal twyll yn eu cyrff iechyd perthnasol, ac mae ganddynt rôl allweddol i’w chwarae o safbwynt atal a chanfod twyll. Mae cynyddu lefelau staffio uwchlaw’r nifer sy’n ofynnol yn fater y penderfynir yn lleol yn ei gylch.

4.10 Mae'r cyfuniad o Arbenigwyr Atal Twyll Lleol a chymorth ac arweiniad gan Wasanaeth Atal Twyll y GIG a'r Grŵp Llywio Atal Twyll wedi arwain at drefniadau gwell ar gyfer atal twyll yn sector y GIG o'i gymharu â'r sectorau eraill. Fodd bynnag, er y caiff staff Arbenigwyr Atal Twyll Lleol eu rhannu'n aml rhwng Byrddau Iechyd unigol, ni chânt eu rhannu ar draws y sector cyfan. O ganlyniad, gall y ffaith mai nifer gymharol fach o staff atal twyll sydd mewn rhai Byrddau Iechyd achosi problemau os yw aelodau o staff yn absennol o'r gwaith. Hyd yn oed yn GIG Cymru, cydnabyddir yn gyffredinol y dylid cyflawni mwy o waith rhagweithiol.

4.11 Mae'r tîm atal twyll yn Llywodraeth Cymru yn fedrus ac yn brofiadol ac mae wedi llwyddo i sicrhau nifer o erlyniadau proffil uchel yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, daeth adolygiad diweddar o Lywodraeth Cymru, a gynhaliwyd gan Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth yn 2017, i'r casgliad y gallai'r swyddogaeth atal twyll gyflawni mwy pe bai'n cael mwy o adnoddau. Mae'r tîm atal twyll yn gallu defnyddio adnoddau o'r tu mewn i Lywodraeth Cymru i gynorthwyo gydag ymchwiliadau lle bo'n briodol, a cheir cynlluniau i gynyddu'r adnoddau sydd gan y tîm yn y dyfodol agos.

4.12 At hynny, canfu ein harchwiliad fod cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn gyffredinol yn dilyn dulliau traddodiadol o atal twyll, a'u bod yn canolbwyntio ar ganfod ac ymchwilio yn hytrach nag ar atal. Mae'r rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus yn cydnabod y dylid gwneud mwy o waith rhagweithiol ac ataliol, ond maent hefyd yn cydnabod bod diffyg amser, adnoddau ac arbenigedd yn rhwystrau i newid y ffocws hwnnw.

4.13 Ni welsom lawer o enghreifftiau lle mae cyrff cyhoeddus y tu allan i'r GIG yng Nghymru yn cyfuno adnoddau, er mwyn helpu i leihau'r dyblygu ymdrech sy'n digwydd ac er mwyn gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau atal twyll ar draws sectorau. Gallai cyfuno adnoddau fod o gymorth hefyd i wella parhad ac ychwanegu hyblygrwydd er mwyn addasu i anghenion a fydd yn newid yn y dyfodol.

4.14 Yn 2018, lansiodd Llywodraeth y DU y Proffesiwn Atal Twyll er mwyn gwella gallu cyffredinol i atal twyll ar draws y llywodraeth. Mae'r proffesiwn yn datblygu sgiliau staff arbenigol ac yn symud y tu hwnt i ffocws traddodiadol ymchwiliadau, gan roi mwy o bwys ar atal twyll a defnyddio gwyddor dadansoddi data. Mae aelodaeth ar draws adrannau Llywodraeth y DU wedi bod yn cynyddu'n gyson, ac mae Llywodraeth Cymru yn ymwneud â'r fenter. Mae'n ofynnol i sefydliadau sy'n ymuno â'r proffesiwn gael amgylcheddau dysgu sy'n cynorthwyo eu staff i ddatblygu a chynnal safonau proffesiynol.

# Beth y gall y sector cyhoeddus yng Nghymru ei wneud i wella?

## Argymhellion

**A8** Mae angen i bob corff cyhoeddus greu digon o gapasiti i sicrhau bod gwaith atal twyll yn cael adnoddau effeithiol, fel bod ymchwiliadau’n cael eu cynnal yn broffesiynol ac mewn modd sy’n arwain at gosbi’r tramgwyddwyr yn llwyddiannus ac at adennill colledion.

**A9** Dylai pob corff cyhoeddus fod yn medru cael gafael ar staff sydd wedi cael hyfforddiant ynghylch atal twyll ac sy’n bodloni safonau proffesiynol cydnabyddedig.

**A10** Dylai pob corff cyhoeddus ystyried modelau a fabwysiadwyd mewn rhannau eraill o’r DU, sy’n ymwneud â chyfuno a / neu rannu adnoddau er mwyn sicrhau bod cynifer ag sy’n bosibl o staff ar gael sydd â’r sgiliau priodol.

# Offer a data

# 05

## Pam y mae'r thema yn bwysig?

5.1 Bydd swyddogaeth effeithiol ar gyfer atal twyll yn sicrhau bod gan y sawl sy'n gyfrifol amdani y methodolegau diweddaraf a'r offer cywir ar gyfer y gwaith. Rhaid i staff atal twyll wneud y defnydd gorau o ddata a gwybodaeth er mwyn:

a atal twyll drwy sicrhau bod systemau a phrosesau'n medru ei wrthsefyll; a

b ymateb yn effeithiol i amheuon o dwyll.

5.2 Mae bygythiadau newydd o ran twyll yn ymddangos yn barhaus, ar lefel fyd-eang ac yn genedlaethol. Mae'n bwysig bod gan gyrff cyhoeddus ddulliau hyblyg ac arloesol o atal twyll, sy'n addas i oes ddigidol ac sy'n ddigon hyblyg i allu dal i fyny â thwyllwyr neu, yn well fyth, i allu achub y blaen arnynt.

5.3 Mae ymosodiadau seiber yn ddull amgen o gyflawni mathau traddodiadol o dwyll, megis dwyn asedau, arian neu eiddo deallusol. Canfu arolwg diweddaraf PricewaterhouseCoopers o droseddau economaidd byd-eang mai seiberdroseddu yw'r math mwyaf cyffredin o dwyll sy'n wynebu busnesau yn y DU erbyn hyn; am y tro cyntaf ers dechrau cynnal yr arolwg, mae wedi mynd yn fwy cyffredin na thwyll sy'n deillio o gamddefnyddio asedau. Gallwn weld hynny yn y cynnydd enfawr a fu yn nifer y sgamiau seiber sy'n gysylltiedig â'r pandemig COVID-19.

5.4 Mae atal twyll bob amser yn well na gorfod ymateb i dwyll sydd wedi digwydd. Erbyn hyn, mae llawer o sefydliadau'n ceisio sicrhau bod systemau'n medru gwrthsefyll twyll pan fydd yn cael ei gyflawni, gan ddefnyddio'r datblygiadau diweddaraf ym maes gwyddor dadansoddi data. Er enghraifft:

a mae Swyddfa'r Cabinet wedi datblygu offer ar-lein sy'n gallu ystyried 10,000 o gofnodion mewn saith eiliad er mwyn cynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy yng nghyswllt ceisiadau am grantiau; a

b mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi bod yn treialu system Deallusrwydd Artiffisial sy'n canfod hawliadau twyllodrus drwy chwilio am batrymau ymddygiad penodol, megis ceisiadau am fudd-daliadau sy'n defnyddio'r un rhif ffôn neu sydd wedi'u hysgrifennu mewn arddull debyg. Yna, caiff gwybodaeth am unrhyw weithgarwch amheus ei throsglwyddo i ymchwilwyr arbenigol.

5.5 Mae gwyddor dadansoddi data'n offeryn mwyfwy pwysig o safbwynt atal twyll yn ogystal â'i ganfod. Rydym yn ystyried yn adran nesaf yr adroddiad hwn sut y gall cyrff cyhoeddus rannu data er mwyn helpu i ddod o hyd i dwyll.

5.6 Nid yw technoleg soffistigedig a gwyddor dadansoddi data o fawr ddim gwerth os na chânt eu defnyddio'n effeithiol, ac mae angen adnoddau dynol sydd wedi cael hyfforddiant digonol i'w deall. Felly, mae'n bwysig bod cyrff cyhoeddus yn gallu cael gafael ar staff medrus ym maes gwyddor dadansoddi data, er mwyn sicrhau canlyniadau gwell o safbwynt atal twyll.

5.7 Mae gwybod beth y dylid ei wneud mewn achos o dwyll a amheuir yn gwella'r siawns o allu cymryd camau gorfodi llwyddiannus. Mae hefyd yn atgyfnerthu'r agwedd o'r brig nad yw'r sefydliad yn goddef twyll. Rhaid bod cynlluniau ymateb i dwyll yn rhoi cyfarwyddyd clir i bartïon perthnasol fel bod cyrff yn gallu ymateb yn sydyn ac yn briodol i honiadau. Dylai cynllun ymateb gael ei adolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod pob ymateb i dwyll yn briodol i gyfnodau newydd a risgiau newydd. Dylai cynllun ymateb egluro'r canlynol:

a y broses o ymchwilio i dwyll, o'r adeg pan gaiff honiad ei dderbyn i'r adeg pan gaiff adroddiad ynghylch y canlyniadau ei lunio;

b rolau a gweithdrefnau ar gyfer cael tystiolaeth a chynnal cyfweliadau;

c manylion ynghylch sut a phryd y dylid cysylltu â'r heddlu;

ch ymrwymiad i fynd ar drywydd ystod o gosbau;

d y trefniadau ar gyfer adrodd; ac

dd sut y bydd y gwersi a gaiff eu dysgu'n cael eu defnyddio i gryfhau rheolaeth ar systemau a phrosesau.

## Beth welsom ni?

5.8 Yn gyffredinol, gwelsom fod angen gwneud mwy o waith i ddiweddaru offer a methodolegau atal twyll er mwyn adlewyrchu'r oes newydd lle mae ymosodiadau seiber a throseddau a hwylusir gan dechnoleg ddigidol yn digwydd. Nid oedd gan lawer o'r awdurdodau lleol a'r cyrff llywodraeth ganolog y buom yn edrych arnynt, yn rhan o'n gwaith maes, bolisïau diogelwch gwybodaeth a oedd yn adlewyrchu'r risgiau sy'n gysylltiedig â seiberdroseddu. Roedd y sefyllfa'n fwy cadarnhaol yng nghyrff GIG Cymru.

5.9 Canfu ein hadolygiad ychydig yn unig o enghreifftiau lle caiff gwyddor dadansoddi data ei defnyddio fel dull o atal twyll. Caiff gwyddor dadansoddi data ei defnyddio ar raddfa ehangach i ganfod twyll, er enghraifft wrth fynd ar drywydd parau data a amlygir gan y Fenter Twyll Genedlaethol, ond mae gwaith archwilio blaenorol a gyflawnwyd gennym[4] wedi dangos bod y graddau yr ymwneir â'r Fenter Twyll Genedlaethol yn amrywio'n sylweddol ar draws cyrff cyhoeddus yng Nghymru.

5.10 Gwelsom nad oedd gan rai awdurdodau lleol a chyrff llywodraeth ganolog gynllun ymateb i dwyll, a gâi ei rannu â phob aelod o staff ac a oedd yn egluro y byddai camau'n cael eu cymryd i ymchwilio i bob honiad o dwyll. Roedd gan Lywodraeth Cymru gynllun ymateb i dwyll ond roedd ar ffurf drafft adeg ein gwaith archwilio ac nid oedd, felly, ar gael i'r staff. Unwaith eto, roedd y sefyllfa'n fwy cadarnhaol o lawer yn GIG Cymru.

5.11 Mae pob un o gyrff y GIG yn defnyddio'r un system rheoli achosion i gofnodi a monitro'r cynnydd a wneir yng nghyswllt achosion posibl o dwyll. Mewn sectorau eraill, ychydig o gyrff sydd â system rheoli achosion er bod gan rai lòg ar ffurf taenlen sy'n cofnodi'r wybodaeth. Mae'r ffaith bod y wybodaeth a gesglir mor amrywiol yn golygu ei bod yn anodd iawn adrodd ynghylch y sefyllfa yng Nghymru gyfan o safbwynt lefel y twyll sy'n digwydd. Nid oedd gan lawer o awdurdodau lleol a chyrff llywodraeth ganolog system rheoli achosion na chofnodion manwl, gan fod niferoedd yr achosion o dwyll a gâi eu canfod ac yr ymdrinnid â nhw'n fach iawn.

5.12 Mae mwyafrif y cyrff cyhoeddus y buom yn edrych arnynt yn ystyried yr ystod lawn o gosbau posibl (disgyblu, rheoleiddio, camau sifil a chamau troseddol) yn erbyn twyllwyr a byddant yn ceisio iawn, sy'n cynnwys adennill asedau ac arian, lle bo modd. Fodd bynnag, mae llawer o gyrff yn adrodd ynghylch lefelau mor isel o dwyll fel ei bod yn amhosibl cadarnhau eu honiadau. Os caiff unrhyw achosion mewnol o dwyll eu nodi, mae mwyafrif y cyrff yn tueddu i ymdrin â'r tramgwyddwyr drwy weithdrefnau disgyblu mewnol.

4 Yn ein hadroddiad ym mis Hydref 2018 ynghylch y Fenter Twyll Genedlaethol, nodwyd bod 'mwyafrif y cyrff sector cyhoeddus yng Nghymru a gymerodd ran yn y Fenter Twyll Genedlaethol yn rhagweithiol o ran adolygu'r parau data, ond nid oedd nifer fach o gyfranogwyr yn adolygu'r parau yn brydlon nac yn effeithiol'.

5.13 Roedd mwyafrif y cyrff cyhoeddus y buom yn edrych arnynt yn myfyrio ynghylch y gwendidau a amlygwyd gan achosion o dwyll a llygredd a brofwyd, ac yn adrodd yn ôl wrth adrannau a thimau er mwyn iddynt sicrhau bod eu systemau’n medru gwrthsefyll twyll. Roedd y trefniadau yng nghyrff lleol y GIG yn arbennig o gadarn, oherwydd nid yw achosion o dwyll yn eu systemau rheoli achosion nhw’n gallu cael eu cau heb fod sicrwydd yn cael ei roi bod unrhyw wendidau mewn systemau wedi’u hystyried a’u hunioni os oes raid.

## Beth y gall y sector cyhoeddus yng Nghymru ei wneud i wella?

### Argymhellion

**A11** Mae angen i bob corff cyhoeddus ddatblygu a chynnal ymatebion deinamig a hyblyg ym maes atal twyll, sy’n cynyddu’r tebygolrwydd y bydd camau gorfodi llwyddiannus yn cael eu cymryd ac sy’n ategu’r agwedd o’r brig nad yw’r sefydliad yn goddef twyll.

**A12** Dylai pob corff cyhoeddus archwilio a chroesawu cyfleoedd i arloesi gyda gwyddor dadansoddi data, er mwyn cryfhau trefniadau ar gyfer atal a chanfod twyll.

# Cydweithio

06

## Pam y mae’r thema yn bwysig?

6.1 Nid yw twyllwyr yn parchu ffiniau daearyddol nac unrhyw ffiniau eraill. Mae hynny’n golygu na all cyrff unigol y sector cyhoeddus sefydlu trefniadau effeithiol ar eu pen eu hunain ar gyfer atal twyll. Rhaid iddynt gydweithio er mwyn sicrhau bod eu hymateb i dwyll gystal ag y gall fod.

6.2 Mae cydweithio’n agwedd fwyfwy pwysig ar wasanaeth cyhoeddus, yn enwedig yng nghyd -destun llai o gyllid a’r angen i gyflawni mwy gyda llai o adnoddau. At hynny, mae cydweithio yn un o’r ‘pum ffordd o weithio’ fel y diffinnir yn nogfen Llywodraeth Cymru, ‘Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015: Yr hanfodion’[5]. Mae’n hanfodol, felly, bod cydweithio a rhannu gwybodaeth ac arfer da’n digwydd rhwng cyrff y sector cyhoeddus, y sector preifat a’r trydydd sector ar draws y DU ac yn rhyngwladol.

6.3 Gall cydweithio olygu rhannu pobl neu gyfuno adnoddau ac, i raddau mwy cyffredin y dyddiau hyn, rhannu gwybodaeth. Gall y wybodaeth honno gael ei rhannu rhwng adrannau, rhwng cyrff, ar draws gwahanol elfennau’r sector cyhoeddus, ac â rhanddeiliaid allweddol eraill megis awdurdodau gorfodi’r gyfraith a’r sector preifat. Gall y wybodaeth a rennir fod yn wybodaeth am natur achos o dwyll neu’n wybodaeth ynghylch pwy yw’r tramgwyddwyr.

6.4 Mae rhannu data er mwyn helpu i ganfod twyll yn faes sy’n esblygu’n gyflym, a chaiff ei hwyluso gan newidiadau yn y gyfraith. Daeth Deddf yr Economi Ddigidol yn gyfraith yn 2017, ac mae’n galluogi awdurdodau cyhoeddus i rannu data personol er mwyn atal twyll yn y sector cyhoeddus, ei ganfod, ymchwilio iddo ac erlyn pobl am ei gyflawni. Mae’r Ddeddf yn cydnabod y gallai ehangu’r arfer o rannu data wella’r gwaith o atal twyll, ei ganfod ac ymchwilio iddo, a hynny mewn nifer o ffyrdd sy’n cynnwys:

- a gwella’r modd y mae unigolion a allai fod yn twyllo yn cael eu targedu, a gwella proffiliau risg mewn perthynas â nhw;
- b symleiddio prosesau, a fydd yn galluogi’r llywodraeth i weithredu’n gynt; ac
- c symleiddio’r dirwedd ddeddfwriaethol.

5 ‘Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015: Yr hanfodion’, Llywodraeth Cymru (2015)

## Beth welsom ni?

6.5 Canfu ein gwaith maes ar draws 40 o gyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru nad oedd trefniadau ar gyfer cydweithio wedi datblygu’n ddigonol, sy’n ategu canfyddiadau ein hadolygiad yn 2019.

6.6 Mewn awdurdodau lleol a chyrff llywodraeth ganolog, ceir rhai enghreifftiau da o gyrff yn gweithio ar y cyd ac o rai rhwydweithiau rhanbarthol, ond maent yn tueddu i fod yn drefniadau anffurfiol ac nid oes dull cyson o weithredu ar waith. Gall ffurfioli trefniadau helpu i wella atebolrwydd a llywodraethu a gall ddylanwadu ar ymrwymiad a chanlyniadau.

6.7 Yn gyffredinol, mae’r darlun yn fwy cadarnhaol ar draws cyrff lleol y GIG a Llywodraeth Cymru nag y mae mewn awdurdodau lleol a chyrff llywodraeth ganolog. Fodd bynnag, mae lle i bob corff cyhoeddus gydweithio’n agosach â’i gilydd ac â rhanddeiliaid eraill er mwyn mynd i’r afael â thwyll.

6.8 Oherwydd y dull haenog o atal twyll yn GIG Cymru ac oherwydd partneriaethau ffurfiol sydd wedi’u sefydlu ag Awdurdod Atal Twyll y GIG, mae modd cael gafael yn hwylus ar dimau arbenigol ymchwilio i dwyll, megis timau sy’n arbenigo mewn goruchwylio, gwneud gwaith fforensig ar gyfrifiaduron, adennill asedau a chynnal ymchwiliadau ariannol. Mae Gwasanaeth Atal Twyll y GIG yng Nghymru yn darparu gwasanaethau goruchwylio, adennill asedau a chynnal ymchwiliadau ariannol i GIG Cymru, ac mae Awdurdod Atal Twyll y GIG yn darparu gwasanaethau gwaith fforensig ar gyfrifiaduron a gwasanaethau cymorth arbenigol eraill i GIG Cymru dan delerau ei gytundeb blynyddol â Llywodraeth Cymru.

6.9 Nid yw’r trefniadau ffurfiol hyn ar gyfer cael gafael ar wasanaethau wedi’u sefydlu i raddau cystal mewn sectorau eraill, ond dywedodd y rhan fwyaf o sefydliadau wrthym y gallent gael gafael ar wasanaethau arbenigol pe bai angen. Roedd y lefel isel o dwyll a ganfyddir yn un o’r rhesymau a roddwyd dros ddiffyg partneriaethau ffurfiol rhwng cyrff y sector cyhoeddus.

6.10 At hynny, gwelsom fod hyd a lled y data a rennir yn amrywio’n sylweddol. Yn y rhan fwyaf o gyrff, roedd yr arfer o rannu data wedi’i gyfyngu fel rheol i’r Fenter Twyll Genedlaethol, er nad yw pob un o’r cyrff llywodraeth ganolog yn cymryd rhan yn y Fenter Twyll Genedlaethol ar hyn o bryd. Gwelsom nad yw rhai awdurdodau lleol yn buddsoddi llawer o adnoddau ar gyfer mynd ar drywydd parau data a amlygir gan y Fenter, ac yn aml dyma’r awdurdodau a oedd â threfniadau cyfyngedig ar gyfer atal twyll.

6.11 Ychydig iawn o enghreifftiau a oedd ar gael o sefydliadau’n gweithio yn fynych ar draws ffiniau mewnol ac allanol ac yn rhannu gwybodaeth. Y rhesymau cyffredin dros y diffyg cydweithio hwnnw oedd diffyg amser ac adnoddau, a phryderon ynghylch rhannu data.

## Beth y gall y sector cyhoeddus yng Nghymru ei wneud i wella?

### Argymhellion

**A13** Dylai cyrff cyhoeddus weithio gyda’i gilydd, dan Ddeddf yr Economi Ddigidol a chan ddefnyddio datblygiadau ym maes gwyddor dadansoddi data, i rannu data a gwybodaeth er mwyn helpu i ganfod twyll a brwydro yn ei erbyn.

# Adrodd a chraffu

07

## Pam y mae’r thema yn bwysig?

7.1 Mae llunio amcangyfrif dibynadwy o gost twyll yn dasg anodd, ac mae’n arbennig o anodd ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru fel y nodwyd yn ein hadroddiad yn 2019. Er bod Llywodraeth y DU yn llunio amcangyfrif bob blwyddyn, nid yw’r amcangyfrif hwnnw’n cynnwys dadansoddiad ar gyfer pob un o weinyddiaethau datganoledig y DU. Mae dadansoddiad diweddaraf CIPFA yn amcangyfrif bod twyll yn costio £40.3 biliwn bob blwyddyn i’r sector cyhoeddus yn y DU. Mae Swyddfa’r Cabinet[6] yn amcangyfrif bod colledion oherwydd twyll a gwallau’n cyfateb i rhwng 0.5% a 5% o’r gyllideb. Mae cymhwyso’r ystod ganrannol honno i wariant cyhoeddus blynyddol yng Nghymru, sef tua £20 biliwn, yn golygu bod amcangyfrif posibl o werth colledion oherwydd twyll a gwallau’n cyfateb i rhwng £100 miliwn ac £1 biliwn y flwyddyn. Felly, mae’r colledion yn sylweddol ac yn golygu bod llai o gyllid gwerthfawr ar gael i’n gwasanaethau cyhoeddus.

7.2 Yn aml, nid adroddir yn ddigonol ynghylch twyll oherwydd nad yw rhywfaint o’r gweithgarwch amheus a amlygir drwy barau data’r Fenter Twyll Genedlaethol, er enghraifft, yn cael ei ystyried yn dwyllodrus ac nad adroddir, felly, yn ei gylch. At hynny, nid yw rhai cyrff cyhoeddus yn adrodd ynghylch twyll oherwydd ei fod yn gallu denu sylw nas dymunir ac oherwydd y canfyddiad ei fod yn gwneud drwg i enw da sefydliad. Mae sefyllfa o’r fath yn golygu bod y darlun sy’n seiliedig ar wybodaeth genedlaethol yn anghyflawn.

7.3 Mae’r Fforwm Rhyngwladol Twyll yn y Sector Cyhoeddus[7] wedi cydnabod bod canfod twyll yn beth da, a dyna yw un o’i brif egwyddorion ar gyfer ymdrin â thwyll a llygredd. Yn ôl y Fforwm, os nad yw cyrff yn canfod twyll ni allant frwydro yn ei erbyn, ac mae angen newid agwedd fel bod canfod twyll yn cael ei ystyried yn gam cadarnhaol a rhagweithiol.

7.4 Mae adrodd ynghylch twyll wrth y sawl sy’n gyfrifol am lywodraethu sefydliadau’r sector cyhoeddus yn bwysig, oherwydd mae’n sicrhau bod rheolwyr a phwyllgorau archwilio, er enghraifft, yn cael y wybodaeth y mae arnynt ei hangen i herio a chraffu. Er mwyn hwyluso atebolrwydd, dylai cyrff cyhoeddus roi copïau o adroddiadau ynghylch atal twyll, sy’n nodi niferoedd achosion a chanlyniadau, i bwyllgorau archwilio fel eu bod yn hollol ymwybodol o unrhyw faterion sy’n peri pryder a’u bod yn gallu dwyn rheolwyr a thimau atal twyll i gyfrif. At hynny, gall pwyllgorau archwilio hyrwyddo’r neges na chaiff twyll ei oddef, gan ategu’r ymdrechion a wneir gan dimau atal twyll.

6 Adroddiad Swyddfa’r Cabinet ynghylch y dirwedd o ran twyll ar draws y Llywodraeth, a gyhoeddwyd yn 2018

7 Canllaw ar gyfer cyrff cyhoeddus gan y Fforwm Rhyngwladol Twyll yn y Sector Cyhoeddus ynghylch rheoli twyll, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2019

## Beth welsom ni?

7.5 Mae’r trefniadau yn GIG Cymru ar gyfer cofnodi, casglu a rhannu gwybodaeth am golledion ac adenillion yn dilyn achosion o dwyll yn gadarn. Mae Gwasanaeth Atal Twyll y GIG yn casglu gwybodaeth gan bob corff iechyd fel mater o drefn am nifer yr achosion o dwyll ac am adenillion. Ceir adroddiadau bob chwarter a bob blwyddyn ynghylch perfformiad gweithredol, sy’n crynhoi gwybodaeth am adnoddau, atgyfeiriadau a gwaith y Gwasanaeth Atal Twyll a’r Arbenigwyr Atal Twyll Lleol sydd ym mhob corff iechyd. Caiff yr adroddiadau hynny eu hadolygu gan y Grŵp Llywio Atal Twyll a’u rhannu â Chyfarwyddwyr Cyllid a phwyllgorau archwilio pob corff iechyd, sy’n helpu i hwyluso cymariaethau ystyrlon yn y sector. At hynny, mae Awdurdod Atal Twyll y GIG yn adrodd wrth Lywodraeth Cymru bob chwarter.

7.6 Yn gyffredinol mewn sectorau eraill, nid yw pwyllgorau archwilio yn cael cymaint o wybodaeth:

a yn Llywodraeth Cymru, nid yw’r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn cael gwybodaeth fanwl am achosion o dwyll nac yn gofyn am wybodaeth o’r fath, er bod gwybodaeth am achosion o bwys a gweithgarwch atal twyll yn cael ei chynnwys yn yr adroddiad rheolaidd gan y Pennaeth Archwilio Mewnol;

b yn y sector llywodraeth leol, mae llai na hanner yr awdurdodau’n adrodd yn rheolaidd ynghylch gwybodaeth am achosion o dwyll, colledion ac adenillion wrth eu pwyllgorau archwilio; ac

c mae llai fyth o gyrff llywodraeth ganolog yn adrodd ynghylch achosion o dwyll, sy’n adlewyrchu’r nifer fach iawn o achosion o dwyll a gaiff eu canfod a’u rheoli.

7.7 Mae absenoldeb trefniadau ar gyfer adrodd ynghylch gwybodaeth a threfniadau ar gyfer casglu a rhannu’r wybodaeth honno ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru yn peri pryder am nifer o resymau. Nid yw’n gwneud fawr ddim i helpu i atgyfnerthu’r neges o frig sefydliad i’r staff ac i randdeiliaid allanol na chaiff twyll ei oddef. Gallai hefyd olygu bod twyllwyr yn cael y neges anghywir, sef bod Cymru yn credu nad yw twyll yn flaenoriaeth, ac mae’n golygu ei bod yn anodd i wleidyddion ac uwch-swyddogion y sector cyhoeddus asesu lefel y risg a’r ffordd orau o ymateb iddi.

7.8 Pan gaiff achosion o dwyll eu canfod, bydd timau archwilio mewnol (neu arbenigwyr atal twyll, os ydynt ar gael) yn rhoi adroddiadau a diweddariadau i’r pwyllgorau archwilio. At ei gilydd, fodd bynnag, nid yw pwyllgorau archwilio y tu allan i GIG Cymru wedi gwneud digon o waith rhagweithiol i adnabod y risg gynyddol o dwyll ac i ofyn y cwestiynau treiddgar angenrheidiol ynghylch y modd y caiff adnoddau eu paru â’r risg neu ynghylch y diffyg gwybodaeth a roddir am y risg o dwyll.

## Beth y gall y sector cyhoeddus yng Nghymru ei wneud i wella?

### Argymhellion

**A14** Mae angen i gyrff cyhoeddus grynhoi gwybodaeth am golledion ac adenillion a rhannu gwybodaeth â’i gilydd am dwyll er mwyn creu darlun cenedlaethol mwy cywir, cryfhau rheolaeth, gwella gwaith monitro a hybu camau gweithredu a gaiff eu targedu.

**A15** Rhaid i bwyllgorau archwilio ddechrau ymwneud yn llawn ag atal twyll, gan ddarparu cymorth a chyfeiriad amlwg, monitro a dwyn swyddogion i gyfrif os caiff gwybodaeth annigonol ei darparu am weithgarwch atal twyll.

# Atodiadau

1 Dulliau archwilio

2 Ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ym mis Gorffennaf 2019

# 1 Dulliau archwilio

Cafodd ein harchwiliad ei strwythuro o amgylch saith llinell ymholi allweddol er mwyn ein helpu i ateb y cwestiwn cyffredinol: ‘A yw’r trefniadau ar gyfer atal a chanfod twyll yn y sector cyhoeddus yng Nghymru yn effeithiol?’:

- A yw’r haen uchaf yn dangos ymrwymiad i atal twyll ac yn darparu’r arweinyddiaeth angenrheidiol i frwydro yn erbyn twyll?
- A oes gan y sefydliad strwythur addas a digon o adnoddau medrus i atal a chanfod twyll?
- A oes gan y sefydliad fframwaith cadarn o bolisïau i ategu trefniadau effeithiol ar gyfer atal twyll?
- A oes gan y sefydliad asesiad effeithiol o’r risgiau o dwyll ynghyd ag ymatebion priodol i broblemau sy’n dod i’r amlwg?
- A yw amgylchedd y sefydliad o ran rheolaeth fewnol yn ategu trefniadau effeithiol ar gyfer atal a chanfod twyll?
- A oes gan y sefydliad ymateb priodol i dwyll?
- A oes gan y sefydliad drefniadau priodol ar waith ar gyfer adrodd a chraffu, er mwyn sicrhau bod ei ddiwylliant a’i fframwaith atal twyll yn gweithredu’n effeithiol?

Cafodd gwaith maes yr archwiliad ei gyflawni gan ein timau archwilio lleol rhwng mis Tachwedd 2019 a mis Chwefror 2020. Roedd eu gwaith maes yn cynnwys:

- cyfweliadau strwythuredig – cyfweliadau ag unigolion allweddol er mwyn deall y trefniadau sydd ar waith ar gyfer atal twyll ym mhob corff a gafodd ei archwilio; ac
- adolygiadau o ddogfennau – fel rheol roedd y dogfennau hynny, os oeddent ar gael, yn cynnwys y strategaeth atal twyll, asesiad risg, cynlluniau gwaith, cofrestr risg gorfforaethol, cynllun ymateb i dwyll, codau ymddygiad, polisi chwythu’r chwiban, canllawiau a gweithdrefnau ar gyfer ymchwilwyr lleol i dwyll ac adroddiadau/diweddariadau a ddarparwyd i’r pwyllgor archwilio ynghylch atal twyll.

At hynny, dosbarthodd y timau gais am wybodaeth graidd er mwyn casglu rhywfaint o wybodaeth yn uniongyrchol gan y cyrff a gafodd eu harchwilio.

Buodd tîm y prosiect yn casglu ac yn adolygu’r canfyddiadau lleol er mwyn tynnu’r negeseuon allweddol allan ohonynt i’w cynnwys yn yr adroddiad hwn. Mae ein timau archwilio wedi bod yn rhoi adborth wedi’i deilwra ynghylch eu canfyddiadau lleol i’r staff perthnasol ym mhob corff a gafodd ei archwilio.

Dyma’r cyrff a gafodd eu harchwilio’n rhan o’r astudiaeth hon:

**Cyrff llywodraeth leol:**

- Cyngor Bro Morgannwg
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Cyngor Caerdydd
- Cyngor Dinas a Sir Abertawe
- Cyngor Dinas Casnewydd
- Cyngor Gwynedd
- Cyngor Sir Caerfyrddin
- Cyngor Sir Ceredigion
- Cyngor Sir Ddinbych
- Cyngor Sir Fynwy
- Cyngor Sir Penfro
- Cyngor Sir Powys
- Cyngor Sir y Fflint
- Cyngor Sir Ynys Môn

**Cyrff GIG Cymru:**

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
- Addysg a Gwella Iechyd Cymru
- Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre
- Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

**Cyrff llywodraeth ganolog:**

- Llywodraeth Cymru
- Awdurdod Cyllid Cymru
- Cyngor Celfyddydau Cymru
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
- Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru
- Chwaraeon Cymru
- Comisiwn y Senedd

# 2 Ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ym mis Gorffennaf 2019

| Argymhelliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus | Ymateb gan Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru |
| --- | --- |
| **Gofynnwn i Lywodraeth Cymru ystyried a oes posibilrwydd a chwmpas ar gyfer cefnogi tîm gwrth-dwyll cenedlaethol i weithio ledled Cymru i sicrhau bod staff sydd wedi’u hyfforddi’n briodol yn ymgymryd ag o leiaf lefel sylfaenol o waith gwrth-dwyll ym mhob ardal awdurdod lleol.** | Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod ac yn llwyr gefnogi awdurdodau lleol i roi sylw i dwyll o fewn eu £8 biliwn o wariant refeniw cyffredinol.<br><br>Fel sefydliadau annibynnol dan arweiniad democrataidd, y 22 cyngor eu hunain sy’n bennaf gyfrifol am ganfod ac atal twyll. Yn unol â hynny, rydym yn disgwyl pob un ohonynt i ymroi’n llwyr i’r gwaith hwn, ac i wleidyddion lleol ddeall a darparu arweiniad.<br><br>Er mwyn gwneud yn siŵr bod yr argymhelliad yn cael ei ddeall ac yn cael blaenoriaeth, bydd swyddogion yn codi’r mater gyda’r Gweinidogion i sicrhau eitem ar agenda’r Cyngor Partneriaeth yn ogystal â’i Isbwyllgor Cyllid. Yn ddarostyngedig i gytundeb y Gweinidogion, byddwn yn gosod eitem ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf posib. |
| **Gofynnwn i Lywodraeth Cymru ystyried beth yw’r ffordd orau iddi ddarparu arweinyddiaeth genedlaethol gryfach a chanllawiau o ansawdd gwell ar rannu gwybodaeth, i helpu i gryfhau a gwella effaith gweithgareddau gwrth-dwyll ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru.** | Rwy’n cefnogi unrhyw ymgais i gynyddu’r ddealltwriaeth am dwyll ac i weithredu technegau arferion gorau yn gyson ar draws Sector Cyhoeddus Cymru. Mae cyfrwng eisoes yn bodoli i ddwyn ymarferwyr gwrth-dwyll a phartïon eraill ynghyd ac i ysgogi dealltwriaeth gyffredin o’r maes pwysig hwn.<br><br>Mae Pennaeth Gwrth-dwyll Llywodraeth Cymru yn Ddirprwy Gadeirydd Fforwm Twyll Cymru, elusen ddielw sy’n cael ei rhedeg gan fwrdd strategol o wirfoddolwyr. Ei nod yw helpu i atal twyll yng Nghymru drwy godi ymwybyddiaeth yn y sectorau cyhoeddus a phreifat ac ymysg unigolion. Yn benodol, mae’r amcanion a nodwyd yn cynnwys:<br><br>• dwyn y sectorau cyhoeddus a phreifat ynghyd i ymladd twyll a throseddau ariannol ac amddiffyn economi Cymru; |

## Argymhelliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

## Ymateb gan Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru

- hyrwyddo ymwybyddiaeth o dwyll ymysg ei aelodau, sefydliadau ac unigolion drwy’r rhanbarth
- creu diwylliant o arferion gorau drwy annog a datblygu strategaethau gwrth-dwyll i’w defnyddio gan yr aelodau
- sefydlu arferion gorau rhwng aelodau ar gyfer atal, ymchwilio a chanfod achosion o dwyll
- hyrwyddo amgylchedd agored a chydweithredol rhwng yr aelodau yn y sectorau cyhoeddus a phreifat.

Mae cryn dipyn o barch i’r Fforwm; yn 2017 bu’r Prif Weinidog presennol yn annerch ei gynhadledd flynyddol, gan amlinellu ei gefnogaeth i drefniadau gwrth-dwyll ar draws Cymru. Ymysg aelodau’r Fforwm mae Swyddfa Archwilio Cymru, yn ogystal â nifer o sefydliadau sector cyhoeddus a phreifat.

Felly, rwy’n credu y gall Llywodraeth Cymru sicrhau’r canlyniad y mae’n ei ddymuno drwy nodi strategaethau i gefnogi gwaith y Fforwm, codi ei broffil ymysg sector cyhoeddus Cymru a cheisio cael lefel uchel o ymrwymiad ganddynt i’w gefnogi. Byddaf yn gofyn i’r Swyddogion ymgysylltu â’r Fforwm i drafod strategaethau ar gyfer cryfhau ei effeithiolrwydd erbyn diwedd y flwyddyn galendr hon.

Rydym yn cytuno bod potensial i rannu data rhwng cyrff cyhoeddus Cymru i wella effaith gweithgarwch gwrth-dwyll. Mae cyflwyno Deddf yr Economi Ddigidol yn rhoi pwerau newydd i Lywodraeth Cymru a rhai cyrff cyhoeddus cofrestredig eraill yng Nghymru rannu data gyda’i gilydd, yn unol â’r drefn, er mwyn adnabod achosion posib o dwyll. Mae swyddogion yn gweithio i sefydlu trefn lywodraethu briodol ar gyfer datblygu’r defnydd o’r pwerau hynny yng Nghymru, a’r nod yw sefydlu panel erbyn diwedd y flwyddyn ariannol i ystyried defnyddiau posib y pwerau.

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau ffôn
yn Gymraeg a Saesneg

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru